MEDRWN MÔN
ADRODDIAD BLYNYDDOL

Cefnogi Gwirfoddolwyr, Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol ar Ynys Môn

MEDRWN MÔN
Cefnogi Gwirfoddolwyr,
Grwpiau Gwirfoddorol a
Chymunedol ar Ynys Môn

Cadeirydd
LIZ GILLHAM

Prif Swyddog
JOHN R JONES

Uned 5c,
Parc Diwydiannol Bryn
Cefni, Llangefni,
Ynys Môn LL77 7XA

Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
post@medrwnmon.org
www.medrwnmon.org

Nod Medrwn Môn yw hyrwyddo a chefnogi gwirfoddoli, mudiadau gwirfoddol a chymunedol drwy weithio gydag unigolion, grwpiau a chymunedau ar Ynys Môn i sicrhau eu bod yn chwarae rhan llawn a blaenllaw i ddatblygu potensial yr ynys.

Rhif Elusen: 1088828.
Rhif Cwmni: 4197934.

Adroddiad y Cadeirydd

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Medrwn Môn am yr ail dro ar ran ymddiriedolwyr y Bwrdd Rheoli.

Bu'n flwyddyn arbennig o anodd gan fod dau aelod o staff wedi dioddef salwch tymor hir. Mae'n glod i'r holl aelodau staff eu bod wedi parhau i ddarparu gwasanaethau i'r sector. Mae'n dda gen i ddweud bod y ddau wedi gwella ac yn ôl wrth y llyw.

Mae Medrwn Môn yn rhan o wead gweithgarwch gwirfoddol ar yr Ynys ac mae wedi bod unwaith eto yn gyfrifol am ddenu adnoddau ychwanegol i alluogi cymunedau i wella eu cyfleusterau trwy ei gronfa allweddol. Mae'n dda gen i adrodd y bydd y gronfa hon ar gael eto a gellid ei fwyhau.

Rydym wedi ceisio gwella'r ffordd yr ydym yn adrodd i'r sector ar weithgareddau'r partneriaethau strategol mae'r sector yn eistedd arnynt. Mae'r rhain yn bwysig wrth ddatblygu gweithio mewn 10 partneriaeth gyda'r awdurdodau statudol. Mae'r partneriaethau hyn yn wynebu ad-drefnu rhanbarthol y flwyddyn nesaf ac ein rôl fydd sicrhau bod gwasanaethau lleol yn parhau ar Ynys Môn, a bod lleisiau lleol yn cael eu clywed wrth gynllunio gwasanaethau.

Mae'r hinsawdd economaidd ansicr yn ei gwneud yn anodd i'r sector i gynllunio ei weithgareddau yn enwedig y rhai sy'n cael arian gan yr awdurdodau statudol. Byddwn yn ymdrechu i gyfleu yr anawsterau hyn i'r awdurdodau fel bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud. Mae Medrwn Môn hefyd yn wynebu ansicrwydd gyda'r ail-drafod o gytundeb cyllid cynradd yn 2014. Fodd bynnag, bydd yn ceisio ehangu ei sylfaen ariannu i sicrhau bod ei wasanaethau yn parhau ac yn gwella.

Hoffwn ddiolch i fy nghyd-ymddiriedolwyr am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn a'r holl wirfoddolwyr, ond hefyd i staff Medrwn Môn am eu gwaith caled a thrylwyr yn ystod y flwyddyn.

Diolch hefyd i'r cyrff hynny sydd wedi ein hariannu a'n cefnogi ac edrychwn ymlaen at yr her sy'n ein hwynebu yn y flwyddyn sydd i ddod.

Liz Gillham Cadeirydd

Tystysgrifau Gwirfoddolwyr y Mileniwm am 50, 100 a 200 awr o wirfoddoli

Cyflwyno tystysgrif Gwobr Gwirfoddolwyr y Flwyddyn yng Nghyfarfod Blynyddol Medrwn Môn 2010

Gwybodaeth gyffredinol, cyfarwyddyd a chefnogaeth
Dosberthir gwybodaeth i dros 820 o grwpiau drwy ein cylchlythyr Dan Do Môn bob yn ail fis sydd bellach yn cynnwys MônGwirfodd, ein bwletin Canolfan Gwirfoddolwyr. Mae Bwletin Partneriaeth, sy'n amlinellu'r prif faterion sy'n codi o Bartneriaethau Strategol y Sir, yn cael ei e-bostio i bob aelod a llythyr aelodaeth, yn amlinellu'r prif faterion sy'n codi o gyfarfodydd Bwrdd Rheoli Medrwn Môn, yn cael ei ddosbarthu i bob aelod.

Er bod y ffigwr ar gyfer trawiadau'r wefan yn uchel, tua 40,000, mae problem ynglŷn ag adnoddau staff Medrwn Môn i ddiweddaru'r wefan ac mae hyn wedi'i nodi fel blaenoriaeth gweithredu. Wrth weithredu bydd hyn yn ein galluogi i ddosbarthu gwybodaeth yn brydlon a dylid ein galluogi i arbed costau. Ceir hefyd safle rhwydweithio cymdeithasol ar gyfer ein gwirfoddolwyr ifanc fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnyddwyr 'hŷn' yn y dyfodol.

Defnyddiwyd arian o Gronfa Cydlyniad Cymunedol i brynu 'Ciosg' sydd yn ddyfais electronig lle gellir ei holi i ddysgu am wybodaeth leol.
TARGED: ymholiadau – 4000
CYFLAWNWYD: 5212

Mae Medrwn Môn yn darparu gwasanaethau ymarferol i grwpiau lleol e.e. cynorthwyo gyda llungopïo, lamineiddio, cyfieithu erthyglau byr, dylunio posteri, paratoi llyfrynnau a thaflenni ac ati. Rydym yn benthyg taflunydd, camera digidol, gliniadur a llogi ystafell gyfarfod Medrwn Môn. Paratowyd nifer o adroddiadau blynyddol ar gyfer sefydliadau lleol ac eglwysi; rhaglenni a chofnodion ar gyfer grwpiau amrywiol; calendr blynyddol o ddigwyddiadau ar gyfer grwpiau a llungopïo cylchlythyrau.
TARGED: gwasanaethau ymarferol - 100
CYFLAWNWYD: 101

Fel yr arfer roedd gennym babell yn Sioe Môn, sy'n hyrwyddo gweithgareddau'r grwpiau gwirfoddol ar yr ynys ac eleni'r thema oedd gwirfoddoli i'r ifanc gydag aelodau o banel GwirVol yn bresennol yn ein stondin.

Hyfforddiant
Yn ogystal â darparu ystod o gyrsiau hyfforddi o fewn y fframwaith cenedlaethol sef Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru, darparwyd hyfforddiant mewnol gyda darparwyr hyfforddiant allanol gyda'r fantais i unigolion:

- Rhwydweithio a chyfarfod â phobl o sefydliadau eraill
- Mynychu cwrs fforddiadwy ar gyfer mudiadau gwirfoddol
- Derbyn hyfforddiant ar bynciau sy'n berthnasol iddynt hwy fel unigolion yn ogystal â diwallu anghenion eu sefydliadau

Darparwyd hyfforddiant ar y weithdrefn Amddiffyn Oedolion Bregus a hwyluswyd gan y Prosiect POVA lleol (Amddiffyn Oedolion Bregus) gydag 20 o unigolion yn cynrychioli grwpiau gwirfoddol / cymunedol amrywiol gydag ymateb ardderchog. Roedd yn sesiwn gynhyrchiol ac yn amlinellu gofynion y maes sensitif o amddiffyn oedolion. Derbyniodd pawb a gymerodd ran tystysgrif presenoldeb ar gyfer POVA lefel 2.

Gofynnodd Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc am wybodaeth ar ddarparwyr hyfforddiant a allai gyflwyno sesiwn miniogi byr ar sgiliau cadeirio a sut i gynnwys pwyllgor yng ngwaith Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc.

Mae Rhwydwaith Gwirfoddolwyr Ynys Môn a'n Canolfan Wirfoddoli wedi adnabod yr angen am sesiwn 'Cael y gorau o wirfoddolwyr' ac mae hyn wedi'i gyflenwi.

Pabell Medrwn Môn yn Sioe Môn 2010

Gwirfoddoli
Mae Canolfan Gwirfoddoli Medrwn Môn yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli a ddarperir gan sefydliadau lleol a chenedlaethol ac yn diweddaru'r cyfleoedd hyn ar wefan Gwirfoddoli Cymru pan fydd cynhwysedd yn caniatáu, fodd bynnag mae problemau ynglŷn â'r wefan hyn yn parhau.

Mae'r Ganolfan yn derbyn cyfeiriadau rheolaidd drwy'r cynllun opsiwn gwirfoddoli yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ogystal â gan ddarparwyr eraill megis Want2Work, Hafod Las, Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, Genesis ac ati.

Rhoddir gwybodaeth gyfredol i unigolion am gyfleoedd gwirfoddoli a ddarperir gyda gwybodaeth a'r holl gymorth angenrheidiol i adnabod a cheisio am gyfleoedd sy'n addas iddynt. Mae'r Ganolfan Gwirfoddoli wedi cefnogi person gyda chofnod troseddol i ennill lleoliad gwirfoddoli trwy gefnogi'r sefydliad gyda'u hanghenion yswiriant. Mae'r person bellach yn gwirfoddoli ac yn mwynhau'r lleoliad.

Cyfeirir llawer o bobl ifanc o sefydliadau megis Trais yn y Cartref, Agoriad, Canolfan Byd Gwaith a Chamddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru, felly, mae'n bwysig bod y sefydliad yn ymwybodol o anghenion pob person ifanc unigol, yn sensitif i'w cefndir a'u hamgylchiadau. Crëwyd holiadur gwirfoddolwyr ifanc ac fe'i dosbarthwyd i bob un o'r 5 ysgol uwchradd ar Ynys Môn, grwpiau a sefydliadau sydd wedi bod yn llwyddiannus gyda'r grant GwirVol dan Arweiniad Pobl Ifanc ac yn ystod Sioe Môn. Bydd yr holiadur yn darganfod beth mae pobl ifanc yn ei feddwl am wirfoddoli, beth mae gwirfoddoli yn ei olygu iddynt, a sut gall y Ganolfan Gwirfoddoli hybu gwirfoddoli ymysg yr ifanc.

Cyfarfod Blynyddol Medrwn Môn
Yn ystod y Cyfarfod Blynyddol derbyniodd pobl ifanc o Adran Ynys Môn Ambiwlans Sant Ioan dystysgrifau Gwirfoddolwyr y Mileniwm a chyflwynwyd tystysgrifau Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru hefyd.

Wythnos Gwirfoddolwyr
Yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr ar ddechrau mis Mehefin trefnodd y Ganolfan Wirfoddoli cyflwyniad yn Oriel Môn gyda 65 o bobl yn bresennol a 48 o bobl ifanc yn derbyn naill ai tystysgrif Wythnos Gwirfoddoli neu dystysgrif Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Mae Uchel Siryf Ynys Môn wedi dangos diddordeb mewn cynnal digwyddiad yn ei gartref i ddathlu Wythnos Gwirfoddolwyr y flwyddyn nesaf. Hefyd dangosodd ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddol ar yr ynys.

Mae'r Ganolfan wedi sefydlu'r Rhwydwaith Gwirfoddoli Ynys Môn sydd wedi'i anelu at sefydliadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr a gwirfoddoli er mwyn rhannu profiadau, i rwydweithio gyda sefydliadau eraill, i drafod materion o ddiddordeb, heriau a rhannu ymarfer da.

Cynhaliwyd hyfforddiant Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr (BMG) a bydd hyfforddiant pellach yn y defnydd o'r wefan BMG yn arwain at hyrwyddo ymarfer da i sefydliadau.

Cynhaliwyd sesiwn i sefydliadau treftadaeth ac fe'i cefnogwyd gydag ystod o ddeunyddiau gan gynnwys sut i recriwtio a chefnogi gwirfoddolwyr a'r polisïau sydd eu hangen ar gyfer hyn.

Mae'r Ganolfan Gwirfoddoli wedi bod yn gweithio i gynyddu'r ystod o gyfleoedd gwirfoddoli fel y gall grwpiau lleiafrifol a grwpiau dan anfantais gael mynediad i wirfoddoli. Codwyd ymwybyddiaeth am wirfoddoli drwy gyflwyniad i'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol ac arweiniodd hyn at gynnydd mewn cyfeiriadau.

TARGED: mynychwyr dathliadau gwirfoddoli -120
CYFLAWNWYD: 511

Ymddiriedolwyr a Llywodraethu

Derbyniwyd nifer o geisiadau gan ymddiriedolwyr am gopïau drafft o gyfansoddiadau ynghyd a chopi drafft o gynllun marchnata oedd i'w gyflwyno gan grwp drama am gais am arian, a chais gan grŵp o ymddiriedolwyr am gopi o swydd ddisgrifiad gofalwr.

Darperir gwybodaeth i ymddiriedolwyr drwy ein cylchlythyr a bydd ar gael trwy ein gwefan y flwyddyn nesaf.

Cyllid

Trefnwyd gweithdy gwybodaeth ar gyfer sefydliadau sy'n chwilio am gyllid ar gyfer gweithgareddau gwirfoddoli. Cynhaliwyd y gweithdy gan aelodau o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Thîm Gwirfoddoli GwirVol, gyda 8 o sefydliadau yn mynychu. Cynhaliwyd gweithdy ar Gwahoddiad i Dendro y Porth Ymgysylltu gan Swyddog y Porth Ymgysylltu gyda 9 sefydliad yn mynychu.

Darparwyd cyngor cyllidol ar ffynonellau arian cyfatebol i sefydliadau sydd â diddordeb yn y rhaglen Porth Ymgysylltu, gan nad yw llawer o sefydliadau ar restr o gyflenwyr cymeradwy'r Porth yn cael unrhyw arian cyfatebol. Mae Medrwn Môn wedi annog cyllidwyr lleol i ganiatáu i brosiectau'r Porth Ymgysylltu i ddefnyddio eu cronfeydd fel ffynhonnell o arian cyfatebol ac mae hyn wedi bod yn llwyddiannus.

Mae Medrwn Môn yn rheoli ac yn gweinyddu 4 cronfa - Cronfa Allweddol Gymunedol, Grantiau Dan Arweiniad Pobl Ifanc GwirVol, 2 gronfa a ariennir gan Cymorth ar gyfer chwarae mynediad agored ac offer bach. Dosbarthwyd bron i £73,000.

Rhestrir isod rhai o'r sefydliadau a dderbyniodd gymorth yn ystod y flwyddyn:

Digartref Ynys Môn
Clwb Merched Benllech
Ynys Môn 'A' Team
Again Group Caergybi
Llaneilian W.I
Llangefni Tai Chi
Cylch Ti a Fi Gaerwen
Gardd gymunedol Gaerwen
Ynys Môn Wales in Bloom Group
Criw Niwbwrch
Grŵp Addysg Gymunedol Môn
Boston Centre Stage Caergybi
Cwmni Tandem Llanfachraeth

Gwnaethpwyd cais ar y cyd â Menter Môn i Brosiect Datblygu Gwledig ar gyfer cronfa allweddol i gynyddu buddsoddiadau ar gyfer grwpiau cymunedol a defnyddio ein cronfa CFAP i ddarparu adnoddau ychwanegol.

TARGED: cyllid a dderbyniwyd - £400,000
CYFLAWNWYD: £728,483

TARGED: grwpiau ariannwyd drwy'r Gronfa Allweddol – 35
CYFLAWNWYD: 70

Mentrau newydd a datblygu cymunedol

Hwylusodd Medrwn Môn gyfarfod rhwng dau sefydliad i drafod sut y gallent gydweithio i wneud y gorau o gyfleoedd ar gyfer eu defnyddwyr, sydd ag anabledd dysgu, i fod yn rhan o weithgareddau sy'n anelu at gefnogi eu datblygiad.

Rhoddwyd cefnogaeth i lawer o sefydliadau e.e. i ddatblygu prosiect pontio'r cenedlaethau a gynlluniwyd i ddarparu cymwysterau i unigolion sy'n dymuno gofalu am yr henoed; prosiect a gynlluniwyd i gynyddu cyfleoedd i bobl ag anabledd dysgu; prosiect sy'n anelu at gynyddu cyfleoedd sydd ar gael i bobl NEET (Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant); i gynyddu'r cyfleoedd addysgol ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig Ynys Môn; cais i ddarparu cefnogaeth un i un i bobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n eu harwain i mewn i wirfoddoli neu gyflogaeth; prosiect sy'n anelu at gynyddu gweithgareddau sefydliadau ar Ynys Môn sy'n gweithio gyda phobl ifanc; prosiect sy'n darparu cymwysterau gweithgareddau awyr agored i bobl leol gyda'r nod o gynyddu eu siawns o gyflogaeth yn y sector hwn, yn enwedig siaradwyr Cymraeg a grwpiau dan anfantais.

Cynhyrchodd Medrwn Môn adroddiad 'Bylchau yn y Ddarpariaeth' mewn perthynas â chefnogi NEET, BME (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig), Merched, unigolion 50+ sy'n ddi-waith ac yn economaidd anweithgar. Defnyddiwyd yr adroddiad hwn i annog Cyngor Gweithredol Gwirfoddol Cymru i gyhoeddi tendrau penodol y Porth Ymgysylltu ar gyfer Ynys Môn fydd yn helpu llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer y grwpiau uchod. Ysgrifennwyd yr adroddiad gyda chymorth gan nifer o ddarparwyr lleol, gan gynnwys Want2Work, Gyrfa Cymru, CAB, Genesis a'r Ganolfan Byd Gwaith.

Polisi a gwasanaethau cyhoeddus

Mae Medrwn Môn yn aelod llawn o Fwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Môn. Mae'r Bwrdd yn awr yn ennill momentwm a bydd yn datblygu'r Cynllun Cymunedol nesaf, yn ogystal â datblygu Siarter Cynhwysiant Cymdeithasol. Sefydlwyd Grŵp Mynediad Cyfeirio Cyhoeddus sy'n anelu at gyflwyno nodau 'Mynediad Cyhoeddus i Wasanaethau' y Bwrdd drwy ddatblygu a gweithredu Strategaeth Mynediad i'r Cyhoedd.

Mae Medrwn Môn wedi ymateb i Strategaeth Chwarae Plant a gychwynnwyd drwy ein swydd datblygu chwarae. Gwnaed sylwadau ar Fframwaith Gomisiynu Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a rhoir y ddogfen gerbron Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar gyfer ymgynghori.

Cyfranogiad

Mae Medrwn Môn yn hwyluso'r rhwydweithiau canlynol:

- Rhwydwaith Gwirfoddolwyr Ynys Môn
- Cynghrair Iechyd Tymor Hir a Chyflyrau Cronig
- Grŵp Gofal Canolraddol Trydydd Sector Ynys Môn
- Grŵp Rhwydwaith

Partneriaeth

Mae'r sector gwirfoddol yn cael ei gynrychioli ar y Partneriaethau Strategol Sirol canlynol drwy Medrwn Môn ac anfonir gwybodaeth ar eu gweithgareddau yn rheolaidd:

- Bwrdd Gwasanaethau Lleol
- Partneriaeth Adfywio Economaidd Môn
- Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AONB)
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

- Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol

Mae'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn cynnal adolygiad o'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, ac mae Medrwn Môn wedi cyfrannu ato.

Yn dilyn arolygiad Estyn, mae Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn wedi cael ei ad-drefnu ac roedd Medrwn Môn rhan o'r broses yma. Bydd y Bartneriaeth hefyd yn cyhoeddi Strategaeth Plant a Phobl Ifanc.

Darparu gwasanaethau

Mae Medrwn Môn wedi bod yn gweithio trwy Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol i godi ymwybyddiaeth y Cyngor Sir a'r Bwrdd Iechyd o'r sector gwirfoddol i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau. Yn dilyn cyfarfod dwyochrog rhwng y CGGC a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, anfonwyd llythyr at bob cyngor sir yn gofyn iddynt ystyried yn ofalus unrhyw doriadau arfaethedig i gyllid y sector gwirfoddol. Gosodwyd y llythyr ar agenda'r Pwyllgor Cyswllt ac am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd, nid oedd unrhyw doriadau yng nghyllid y sector.

Aelodau'r Bwrdd Rheoli

ENW	MUDIAD
Cadeirydd	
Liz Gillham	Ynys Môn Home-Start
Is-Gadeirydd	
Dilys Shaw	Croesffyrdd Gogledd Cymru Ardal Ynys Môn
Trysorydd	
Eiluned Ann B Thomas	Cymdeithas Epilepsi Ysbyty Gwynedd
Joy Mawby	Anglesey Community Supporters Group (RSVP)
T Richard Griffith	Clwb Pysgota Cefni
Jackie Blackwell	Cyngor Ar Bopeth Ynys Môn
Betty Williams	Fforwm Anabledd Taran Cyf (hyd at Hydref 2010)
Andrew Mark Hughes	Malltraeth Ymlaen (Hydref 2010 ymlaen)
Cath Byast	Partneriaeth Adfywio Amlwch (hyd at Hydref 2010)
James Lee	Partneriaeth Plas Cybi (Hydref 2010 ymlaen)
Eileen M Clarke	Riding for the Disabled
Heidi Williams	Soroptimist International of Anglesey (Hydref 2010 ymlaen)
Patricia Owen	Samariaid Gogledd Orllewin Cymru
Christopher Evans	The Again Group
Charlotte Jones	Wales PPA
Janis Evans	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig CPRW
Tony Pritchard	Ynys Môn Access
Cyfetholedig	
Aled Griffiths	Hawliau Lles Anabledd
Stella Roberts	
Sylwedyddion	
Cynghorydd John Penri Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Carol Williams	Cyngor Iechyd Cymuned
Lynne Joannou	Bwrdd Iechyd Lleol

Craffu

Gwnaethpwyd cais i gynnwys y sector yn nhrefniadau craffu Cyngor Sir Ynys Môn yn ystod cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, fodd bynnag, ni chafodd ei gefnogi gan fod y Cyngor Sir wedi cynnal adolygiad o drefniadau craffu lleol ac wedi ail-drefnu'r pwyllgorau. Gofynnwyd i ail-ymweld a'r mater yn ddiweddarach ac ystyried cynnwys cynrychiolwyr y trydydd sector i bwyllgorau craffu.

Trefniant

Mae Medrwn Môn mewn cysylltiad cyson gyda dros 820 o fudiadau gyda 292 ohonynt yn aelodau, ac yn dilyn adolygiad o'r aelodaeth, mae'r gwaith hwn wedi ei gwblhau ac wedi adnabod 25 o aelodau posibl.

Y flwyddyn nesaf rydym yn debygol o elwa o fuddsoddiad pellach gan gyllid Ewropeaidd i gyflogi gweithwyr newydd ym maes menter gymdeithasol ac ymgysylltu. Mae hefyd y posibilrwydd y gallai ein gwaith gwirfoddol gael ei gryfhau ymhellach. Bydd gwaith yn dechrau i wneud defnydd llawn o'n gwefan er budd y sector, a bydd y symud arfaethedig i swyddfeydd yn Neuadd y Dref, Llangefni yn cryfhau ein perthynas â Menter Môn. Mae'r Cytundeb Partneriaeth sy'n ariannu Medrwn Môn, i'w ail-drafod yn 2013-14 ac mae'n debygol y bydd newidiadau yn y ffordd y mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn cael eu hariannu. Bydd rhesymoli partneriaethau statudol yn gweld mwy o weithio rhanbarthol a thraws sirol. Hefyd, bydd yr hinsawdd economaidd yn sicr o gael effaith ar gyllid y sector.

Aelodau'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol

ENW	MUDIAD
Cadeirydd	
Liz Gillham	Ynys Môn Home-Start
Dilys Shaw	Croesffyrdd Gogledd Cymru Ardal Ynys Môn
Eiluned Ann B Thomas	Cymdeithas Epilepsi Ysbyty Gwynedd
Eileen M Clarke	Riding for the Disabled
T Richard Griffith	Clwb Pysgota Cefni

Aelodau Staff Medrwn Môn

ENW	SWYDD
John R Jones	Prif Swyddog
Siân C Purcell	Dirprwy Prif Swyddog
Wendy Flynn	Gweinyddwr
Derlwyn R Hughes	Swyddog Datblygu Gwybodaeth a Hyfforddiant
Rhian Medi	Swyddog Partneriaethau
Linda Jones	Swyddog Gweinyddol
Ann Perkins	Hwylusydd Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles
Bethan Jukes	Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid
Mark Gahan	Swyddog Gwirfoddoli

Incwm a Gwariant 2010/2011

Incwm: £430,035 ▪ Gwariant: £346,037

Aelodau Medrwn Môn

2nd Holyhead Guides
Abbey Road Centre/Canolfan Lon Abaty
Aberffraw - Deffro Berffro Ltd
Aberffraw Village Hall
Adlais
Again Group
Age Concern Gwynedd a Môn
Agoriad Cyfyngedig
Amlwch & Dist Club for the Physically Disabled
Amlwch Good Turn Scheme
Amlwch Industrial Heritage Trust
Amlwch Port Sports & Social
Amlwch War Memorial Institute (Neuadd)
Anglesey Basketball Association
Anglesey Central Railway Line - Lein Amlwch
Anglesey Community Supporters Group (RSVP)
Anglesey Fair Trade Partnership
Anglesey Federation WI
Anglesey Foster Care Association
Anglesey Music Performance Studio (AMPS)
Anglesey Music Trust
Anglesey Neighbourhood Watch
Anglesey Soc for the Welfare of Handicapped Persons
Anglesey Vintage Ploughing Society
Anglesey Wildlife Casualty Centre
Anheddau Cyf
ARC Cymru
Arthritis Care Cymru Gwynedd / Môn
Arthritis Care in Wales
ASBAH Cymru
Band Porthaethwy
Beat Cymru
Benllech & District Recreational Ascn
Benllech and District Parent & Toddler Group
Benllech Comm & Ex-Svcmens Hall (Neuadd)
Benllech Good Turn Scheme
Benllech Playgroup
Boston Centre Stage
Boston Centre Stage Luncheon Club
Breast Cancer Care Cymru
British Heart Foundation
British Lung Foundation
British Trust Conservation (BTCV)
Bryn Du & Llanfaelog Community Parents
Canolfan Addysg Barhaol
Canolfan Cynghori Ynys Môn
Canolfan Esceifiog, Gaerwen (Neuadd)
Canolfan Gymdeithasol Rhosmeirch (Neuadd)
Canolfan Ucheldre Centre
Cartrefi Cymru
Cemaes Bay Harbour Committee
Cemaes Bay Ladies Group
Cemaes in Bloom
Cerdd Gymunedol Cymru / Community Music Wales
Children of Benllech Pantomime Group
Chwarae Teg
Clubs for Young People Wales
Clwb ar ol Ysgol Llannerchymedd
Clwb Bro Nant y Pandy
Clwb Camera Cybi Camera Club
Clwb Celf a Chwarae Moelfre
Clwb Hwyl ar Ol Ysgol
Clwb Ieuenctid Niwbwrch
Clwb Padrig
Clwb Pensiynwyr Cefni
Clwb Plant Aberffraw
Clwb Plant Capten Jesse's Kids Club
Clwb Plant Llandegfan Kids Club
Clwb Rotari Llangefni
Clwb y Gollen
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Clychau'r Enfys
Coleg Harlech WEA
Côr Bara Brith
Country Landowners Association
CPD Bro Goronwy FC
Crime Prevention Panels
Criw Niwbwrch Cyf
Cruse Bereavement Care
Cwmni Cemaes Cyf
Cwmni Sefydledig Prichard Jones Cyf
Cwmni Tref Llangefni
Cyfeillion Swtan
Cylch Meithrin a Ti a Fi Carreglefn
Cylch Meithrin Aberffraw
Cylch Meithrin Bodffordd
Cylch Meithrin Bodorgan
Cylch Meithrin Corn Hir
Cylch Meithrin Llandegfan
Cylch Meithrin Llanfaethlu
Cylch Meithrin Moelfre
Cylch Meithrin Pencarnisiog
Cylch Meithrin Porthaethwy
Cylch Meithrin Talwrn
Cylch Ti a Fi Bodffordd
Cylch Ti a Fi Corn Hir
Cylch Ti a Fi Gaerwen
Cylch Ti a Fi Llaingoch
Cylch Ti a Fi Llanddaniel
Cylch Ti a Fi Rhosybol
Cymd y Deillion Gogledd Cymru
Cymdeithas Alzheimers
Cymdeithas Amaethyddol Môn
Cymdeithas Clefyd Parkinson Cangen Môn ac Arfon
Cymdeithas Epilepsi Ysbyty Gwynedd
Cymdeithas Gerdded a Hamdden Gaerwen
Cymdeithas Hanes Bro Goronwy
Cymdeithas Neuadd Penrhoslligwy (Neuadd)
Cymdeithas Penrhosllugwy
Cymdeithas Pysgota Cefni
Cymdeithas Tai Eryri
Cynllun Cae Chwarae Gaerwen
Cystic Fibrosis Trust - Ang Gp
Cyswllt (Llanfair Community Association)
Digartref Ynys Môn Cyf
Dolen
Dryw
Elusen Tir Tlodion
Ensemble Cymru
Epilepsy Wales
Ffederasiwn Sefydliad y Merched
Fforwm anabledd taran cyf.
Ffynnon Gwerin
Food and You
Friends of Brwynog
Friends of the Anglesey Red Squirrels Trust
Friends of the Tollhouse
Gingerbread
Girlguiding Anglesey
Gofal a Thrwsio Môn
Gorwel
Griffith Reade Coffee House (Neuadd)
Grŵp Cymorth Môn/Gwynedd Huntington's Disease
Grwp Fibromyalgia/ME Môn
Grwp Stroc Amlwch Stroke Group
Guide Dogs for the Blind Association
Gwalchmai Good Turn Scheme
Gwalchmai Playing Field
Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr
Gwasanaeth Teulu Gwledig Barnardos
Gwelfor Community Concern/Neuadd Gwelfor
Gŵyl Cefni
Gwynedd & Anglesey Asperger/ Autism Support Group
Gwynedd & South Anglesey CAB
Gwynedd Family History Society
Gwynedd Hospice at Home
Hafal
Hafan Cymru
Hawliau Lles Anabledd / Disablement Welfare Rights
Headway Ynys Môn - The Brain Injury Assoc.
Holyhead 6 bird R.P.C.
Holyhead Cancer Support Group
Holyhead Festival-Maritime-Leisure-Heritage
Holyhead H.E.A.R.T. Network
Holyhead Hotspur FC
Holyhead Lions
Holyhead Maritime Museum
Holyhead Opportunities Trust
Holyhead Young Optimists
Kid 'Z' Ink
Kingsland Community Centre (Neuadd)
La Leche League Môn
League of Friends
Little Dragon's Playgroup
Llaingoch Community Hall (Neuadd)
Llandegfan Kids Club
Llaneilian WI
Llanfachraeth Village Hall (Neuadd)
Llanfairpwll Bowling Club
Llangefni Tai Chi
Llangoed and District Village Hall
Llys Eisteddfod Môn
London Road Comm Ctr After School Activities Group
London Road Community Centre
Loose Cannons
Macmillan Cancer Support
Malltraeth Ymlaen
Marie Curie Cancer Care
Maritime Volunteer Services
MELFEST
Melody Makers
Menai Bridge Community Heritage Trust
Menai Bridge War Memorial Community Centre
MENCAP Môn
Meningitis Cymru
Mental Health Advocacy Scheme
Menter Mechell
Menter Môn
Merched y Wawr Ynys Môn
MESMAC North Wales
Moelfre Community Church Hall
Môn/Gwynedd Victim Support
Motor Neurone Disease Association
Mudiad Ffermwyr Ifanc Ynys Môn
Mudiad Ysgolion Meithrin
MYM/PPA Referral Scheme
NACRO Services
Neuadd Bentref Llanddeusant
Neuadd Bentref Llangaffo (Neuadd)
Neuadd Goffa Bodedern (Neuadd)
Neuadd Goffa Bodwrog
Neuadd Goffa Brynsiencyn (Neuadd)
Neuadd Goffa Goronwy Owen (Neuadd)
Neuadd Goffa Pentraeth (Neuadd)
Neuadd Llandegfan (Neuadd)
Neuadd Llangristiolus (Neuadd)
Neuadd Talwrn (Neuadd)
Neuadd Y Pentref Cemaes
North Wales Advice and Advocacy Assoc.
North Wales Crossroads - Anglesey Area
North Wales Regional Athletic Council
North Wales Wildlife Trust
NSPCC Cymru - Wales
NWW CFS/ME Support Group
Parc Y Plant
Partneriaeth Adfywio Amlwch Regeneration Partnership
Partneriaeth Plas Cybi Partnership
Partneriaeth Ward Tudur
Penrhos Stanley Amenities Appeal Gp
Pensarn Village Hall (Neuadd)
Pentraeth Kids Club
Porth y Felin Partnership
Prince's Trust - Cymru
Pwyllgor Neuadd Llanfaethlu
R N L I
Rape & Sexual Abuse Support Centre (NWW)
Relate Cymru
Rhoscolyn Playgroup/Cylch Chwarae
Rhosneigr Ltd
Rhosneigr Senior Friendship Club
Rhosneigr Village Hall (Neuadd)
RNID Cymru
RNLI Cemaes Bay Branch
RSPCA - Ynys Môn Branch
Samaritans/Samariaid North West Wales
Scope (Cwmpas Cymru)
Seindorf Beaumaris Band
Sgowtiaid Rhanbarth Eryri a Môn
SNAP Cymru
Soroptimists International of Anglesey
SOVA
SSAFA Forces Help - Anglesey Branch
St Gwenfaen's Hall Enterprise
St Johns Ambulance
St Mary's Night Shelter
Stonewall Cymru
Straits Art Society
Student Volunteering Bangor
Sylfaen
T S Prince of Wales - Sea Cadets
Teulu'r Ynys
The Anglesey A Team
The castle players A.D.S., beaumaris
The David Hughes Community Association (Neuadd)
Ti a Fi Amlwch
Ti a Fi Talwrn
TPAS Cymru
Trearddur Bay Village Hall
Treseifion Tenants and Residents Assoc
Tyddyn Môn
University of the Third Age (U3A)
Unllais
Urdd Gobaith Cymru
VOICE
W R V S
Wales PPA
Woodturners Ascn of Gwynedd
Y Ganolfan Brynsiencyn
Y Ganolfan Llanbedrgoch
Y Groes Goch/British Red Cross
Y Gymdeithas Strôc
Y Traeth W.I.
Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd
Ymddiriedolaeth Treftadaeth Niwbwrch
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig CPRW
Ynys Mon (Anglesey) Group Riding for the Disabled
Ynys Môn Access
Ynys Môn Drugs Council
Ynys Môn Gwynedd Marine Watch
Ynys Môn Home-Start
YNYS Môn Island Games Association
Ynys Môn Mind
Ysgol Feithrin Amlwch
Ysgol Feithrin Gaerwen
Ysgol Feithrin Gymraeg y Benllech
Ysgol Feithrin Llangaffo
Ysgol Feithrin Penysarn
Ysgol Feithrin y Parc